

## Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych 2022

### 330 - Beirniadaeth Barddoniaeth dan 19 oed

(Cerdd rydd/benrhydd)

Beirniad: Leusa LLewelyn

Cysgod oedd y testun eleni, a cyflwynwyd chwe cerdd. Mae dau o'r beirdd yn trafod digartrefedd, yn cynnwys Morus Jones sydd yn cael trydydd am ei gerdd sydd yn gywrain ddisgrifio manau cysgu'r digartref ar strydoedd ein prifddinas fel "tai cysgodion Caerdydd". Mae ei gerdd ar odl ABAB, sydd ddim bob tro yn gweithio i destun dwys – ond mae'r pennill olaf yn darllen fel dihareb sy'n ein cynghori i helpu'r rhai llai ffodus na'r rheiny ohonom sydd â tho dros ein pennau.

Mae Gwen Davies yn dod yn ail am gerdd sy'n trafod cysgod yn fwy llythrennol o bosib, ond dwi'n credu fod ystyr ddeuol yma gyda'r cysgod yn cynrychioli cysur ac iselder ysbryd bob yn ail yn dibynnu ar y tywydd ac ar gyflwr y meddwl. Gydag ychydig o olygu pellach – tynnu ystrydebau, ansoddeiriau diangen a geiriau cymalog, gallai'r gerdd yma fod yn un dda iawn. Mae'r pennill olaf yn gwbl fendigedig –

“Un peth dwi'n addo,  
os eith pethau yn ddu,  
dwi yno bob cam  
yn gysgod i ti.”

Yn gyntaf y daw Bethan Thomas am gerdd syml sydd yn archwilio hiraeth am rhywun annwyl fel cysgod yn y cof – yn holl bresennol, ond ar yr ymylon ac yng nghornel llygad. Yn hytrach na thrin cysgod fel rhywbeth negyddol, mae'r bardd yma yn cymryd cysur o hyn, gan ddatgan yn y pennill olaf:



## Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych 2022

“Mi welai chi weithiau,  
Pryd mae anobaith yn fy mygu,  
A mae'n rhaid imi atgoffa,  
Dy fod ti yma,  
Yn bodoli yn unig  
Fel cysgod yn fy meddwl.”

1af – Bethan Thomas

2il – Gwen Davies

3ydd – Morus Jones